

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW
7:30YH 15^{FED} RHAGFYR 2021
YNG NGHANOLFAN GWYTHERIN

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Einir Williams (EW) & Mark Davies (MD), R. Emlyn Williams (REW) & Gwynfor Davies (GD),

1.3 Ymddiheuriadau: Garffild Ll Lewis (GLL), Gwyn Williams (GW) & Gwydion Jones (GJ)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 24^{AIN} TACHWEDD 2021

REW yn ymddiheuro ei fod wedi peidio mynychu'r cyfarfod.

4 MATERION YN CODI

Dim i'w godi.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/49143: trafodaeth fod yr adeilad wedi ei godi'n barod. Dim sylw, cymeradwyo.

5.2 0/49182: trafodaeth fod hwn yn ddatblygiad mawr a fod y tir sydd yn ymwneud â'r prosiect yn eang iawn. Pawb yn gytun fod yr adeiladau fel ac y maent ar hyn o bryd yn berygl. Cynghorwyr yn gytun fod y cynllun yn rhoi gormod o dai haf yn y pentref a tai fforddiadwy sydd ei angen yn y pentref. Pawb yn gytun fod y cynllun yn rhy fawr a phryder am strwythyr ffordd a diogelwch. Cynghorwyr i gyd yn gytun fod angen gwneud rhywbeth ar y safle ond fod y cynllun yma yn rhy fawr i'r pentref ac y buasai'n newid y pentref yn gyfangwbl.

Pawb yn gytun i wrthwybenu'r cais fel ac y mae'n sefyll ar hyn o bryd oherwydd fod digon o dai gwyliau yn y pentref yn barod ac y buasai'r datblygiad arfaethedig yn newid y pentref oherwydd y maint a phryderon am y fynedfa i'r safle. Sylwad i'w gofnodi hefyd nad yw'r Cyngor yn erbyn datblygu'r safle.

6 MATERION ARIANNOL

6.1 DR yn adrodd ei bod wrthi gwneud y gwaith paratoadol ar gyfer yr presept ac y bydd yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

7 MATERION Y CYNGOR

7.1 I'w drafod mis nesaf.

7.2 CR & EW wedi cyfarfod yn y fynwent yn ddiweddar, coed gyferbyn a Llais Afon yn beryglus iawn ac angen gwaith brys. Aelodau'r cyhoedd wedi cysylltu efo EW yn adrodd am y coed oherwydd difrod. CR wedi gofyn wrth Dewi Williams i ymgymryd a'r gwaith yn barod oherwydd ei fod yn fater o ddiogelwch i'r cyhoedd. CR yn gofyn i'r Cynghorwyr beth oedd barn am dorri'r coed meddal i'r bonyn neu hanner ffordd. REW & EW yn gofyn beth yw'r sefyllfa efo cael cais cynllunio i dorri'r coed. Pawb yn gytun fod angen torri'r coed yn syth i ddiogelu'r cyhoedd o ran iechyd a diogelwch. DR yn cynnig fod plant Ysgol Bro Cernyw yn cael cyfle i blanu coed newydd yn eu lle, cynllun mewn lle gan Woodlands Trust.

AV yn codi fod canghenau eraill wedi disgyn y y fynwent, CR am ofyn wrth Dewi Williams os oedd modd iddo eu clirio, fel arall am ofyn wrth Kevin Roberts ymgymryd â'r gwaith.

7.3 EW yn adrodd ei bod wedi edrych ar brisiau ar gyfer Chrome Books, prisiau oddeutu £200, laptops ar gael am oddeutu £400. Cyfeiriad ebost y Cyngor yn gallu gweithio efo Chromebook ond ei fod angen fod yn gysylltiedig â'r wê i allu gweithio. DR yn codi y buasai'n syniad fod pwy bynnag sydd yn ymgymryd â gwaith awdit/cyfrifon yn gallu defnyddio laptop er mwyn paratoi dogfennau fel fod y wybodaeth i gyd yn cael ei gadw ar un ddyfais. DR hefyd yn codi'r posibilrwydd o ddefnyddio co-bach. Gliniadur presennol y Cyngor tua deuddeg oed felly penderfynwyd fod hwn yn rhu hen i'w ystyried. Hefyd angen prynu rhaglen Microsoft Office ar gyfer y gliniadur, trafodaeth fydd angen talu ffi tanysgrifio. REW yn cynnig prynu gliniadur ac AV yn eilio.

EW hefyd yn adrodd ei bod wedi clywed gan y Cyngor Sir bod arian ar gael ar gyfer trwydded *Zoom*. EW yn trafod fod cynnal cyfarfodydd aml-leoliad yn ddeddf bellach, felly angen cynnig yr opsiwn i ymuno a cyfarfod ar y wê. Trafodaeth y buasai rhaglen *Microsoft Teams* yn galluogi cynnal cyfarfodydd ar y wê hefyd felly dim angen prynu trwydded *Zoom* hefyd.

7.4 CR yn nodi fod cyfarfod ym Mhandy Tudur Ionawr 19^{eg} Ionawr 2022 oherwydd fod y presept angen bod i mewn erbyn 21^{ain} Ionawr. Cyfarfodydd dilynol 2022: Chwefror 23^{ain} yn Llangernyw, Mawrth 30^{ain} yn Gwytherin, Ebrill 27^{ain} yn Pandy Tudur, Mai 25^{ain} yn Llangernyw, Mehefin 29^{ain} yn Gwytherin, Gorffennaf 27^{ain} yn Pandy Tudur, Medi 28^{ain} yn Llangernyw, Hydref 26^{ain} yn Gwytherin, Tachwedd 23^{ain} yn Pandy Tudur a Rhagfyr 14^{eg} yn Llangernyw.

EW yn gofalu am Gwytherin, CR yn gofalu am Llangernyw a GJ yn gofalu am Pandy Tudur.

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Dim adroddiad wedi dod i law.

9 BILIAU

9.1 Enlli: £134.82, cytunwyd i dalu.

9.2 Wedi cael gohebiaeth PAYE ynglyn â treth, GD am drafod efo'r cyfrifydd.

10 MATERION LLEOL

AV wedi bod yn y fynwent yn gweld y fainc oedd DR wedi ei thrafod yn y cyfarfod diwethaf. Mainc mewn cyflwr da ond angen trwsio darn o bren. Pawb yn gytun i ofyn i Kevin Roberts ymgymryd â'r gwaith.

Aelodau'r cyhoedd wedi sôn am y tyllau yng ngwaelod allt Tyn Pistyll, DR yn adrodd fod y mater yma wedi ei godi efo'r Cyngor Sir; a thwll yn y ffordd hefyd ger garej Ddol Bach, am ddefnyddio Report It i hysbysu'r Cyngor Sir.

Cais gan aelod o'r cyhoedd yn gofyn beth sydd yn digwydd efo adeilad hen Dafarn y Bont. Cynghorwyr heb glywed dim diweddariad am hyn.

Gofyn os yw'r Cyngor yn fodlon prynu arwyddion fflachio 20mya.

DR wedi bod mewn cysylltiad efo John Morris, heddwes, yn gofyn am hyfforddiant gynau cyflymdra. Hefyd yn nodi fod costau gwn o'r fath oddeutu £100.

DR yn codi'r mater o'r fainc yn dilyn cais os oedd modd ei hail leoli i safle sydd ddim angen cerdded dros laswellt i fynd ati. REW am edrych ar fap o'r fynwent i weld os yw'r lleoliadau yn glir o feddi ac adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf.

Cwyn gyffredinol am gyflwr y ffyrdd.

Wedi holi Un Llais am gopiau o gylchlythyron ynglyn â'r fferm wynt arfaethedig, ond heb gael hyd i ddim byd. DR hefyd wedi bod yn gwneud ymholiadau efo Cyngorau eraill hefyd ond heb ddod o hyd i ddim byd. EW hefyd wedi bod trwy ebyst y Cyngor yn chwilio.

EW wedi clywed fod y gwaith ar y Bont Faen yn debygol o fynd ymlaen yn hirach na 10^{fed} Ionawr. CR am ofyn wrth GLL am ddiweddariad ynglyn â hyn.

Wedi cael awgrymiadau enwau ar gyfer paratoi adroddiad ar goed yng Ngwytherin, am ofyn am amcanbrisiau ynglyn â hyn.

REW wedi defnyddio Report It ar gyfer hysbysu'r Cyngor Sir am broblem ffordd yn ardal Gwytherin.

Gofynnodd beth yw'r sefyllfa ynglyn ac ethol Cyngorydd newydd. CR am baratoi hysbyseb a'i roi fyny.

Codi fod angen i'r Cyngor baratoi ffurflen asesiad risg ar gyfer y mynwentydd. EW am edrych drwy ebyst y Cyngor am y ffurflen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Pwyllgor mynwentydd i drefnu. REW hefyd yn gofyn os oedd pawb yn hapus iddo brynu arwyddion Dim Cŵn ar gyfer Gwytherin. AV hefyd yn gofyn os oedd modd prynu rhai ar gyfer Llangernyw a DR yn gofyn am rai ar gyfer Pandy Tudur. Pawb yn gytun i archebu 10 arwydd, REW i ofalu.

CR yn codi fydd cyfarfod cyhoeddus i ardal Cyngor Cymuned Bro Cernyw yn unig yn cael ei gynnal ym mis Mawrth i drafod y fferm wynt arfaethedig. Trafodaeth fydd angen i'r cyfarfod gael ei gyfarfod yn Llangernyw, angen hysbysu'r dyddiad a lleoliad mewn da bryd a sicrhau cyswllt ar y wê.

Adrodd fod perchennog Brook Cottage eisiau dod i'r cyfarfod heno i drafod y gwaith ond heb roi digon o rybydd ei bod am siarad.

Wedi cael cyswllt gan Cartrefi Conwy fod un o dai y Fron, Pandy Tudur yn mynd i ddod ar werth yn y flwyddyn newydd ac yn gofyn os oedd gan rywun lleol â diddordeb ei brynu i gysylltu ac Iwan M Williams, Llanrwst i ddangos diddordeb. DR yn cynnig fod y Cyngor yn ysgrifennu at Cartrefi Conwy yn dweud fod y Cyngor Cymuned yn siomedig a gofyn os oedd gan y Cyngor Sir/Grŵp Cynefin a Chartrefi Conwy restr o bobl sydd eisiau cartref. Penderfyniad wedi ei wneud gan Cartrefi Conwy i werthu'r annedd yn barod oherwydd costau i'w wneud i fyny cyn gwneud ymholiadau'n lleol i weld os oes pobl leol eisiau rhentu. Cynnig fod neges am y bwriad i werthu'r annedd yn cael ei yrru at drigolion Pandy Tudur i hysbysu am hyn, EW i ofalu.

11 CYFARFOD NESAF

19^{eg} Ionawr 2022 yn Festri Pandy Tudur

Cyfarfod yn dod i ben 9:20yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan